Cynllun Marchnata Mentrau Iaith Cymru 2016 - 17

Ein nod marchnata dros y 3 blynedd nesaf yw sicrhau fod:

"Y Mentrau Iaith yn rhannu, meithrin ac arfer arbenigedd marchnata er mwyn gweld twf yn y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd."

I gyflawni'r nod uchod byddwn yn:

→ Arfogi'r Mentrau Iaith i gyfathrebu a marchnata eu gwasanaethau au prosiectau i'r cyhoedd yn fwy effeithiol.

→ Rhoi gwybod i'r cyhoedd am y rhwydwaith o fentrau iaith sy'n gweithredu ym mhob rhan o Gymru a hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

→ Atgyfnerthu rhwydweithio a chyfathrebu trwy sicrhau fod pob Menter Iaith yn ymwybodol o sut y gallwn eu cefnogi a'u cynorthwyo yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

→ Codi ymwybyddiaeth Sefydliadau Allweddol o brosiectau a meysydd gwaith y Mentrau Iaith a'u diweddaru'n gyson ar ddatblygiadau pwysig yn y maes.

→ Cydweithio â Sefydliadau Partner er mwyn cyd-gynllunio a chyd-hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata pwrpasol i godi ymwybyddiaeth grwpiau targed o'r Gymraeg.

Amcanion Gweithredol ac Amserlen

Gwelir amlinelliad o'n hamcanion gweithredol ac amserlen marchnata ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 yn y ddalen isod.

Datblygir cynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer pob un o'r dulliau cyfathrebu/teclynnau marchnata a nodir yn y Cynllun Marchnata hwn (Hysbysebion, Marchnata Digidol, Digwyddiadau Cyhoeddus, Nwyddau Marchnata, Perthynas â'r Cyhoedd ac Ymgyrchoedd.)

	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth
Digwyddiadau Cyhoeddus/ Cystadlaethau / Prosiectau												
Cynnal Stondin / Digwyddiadau Strategol Eisteddfod yr Urdd		■										
Cynnal Stondin / Digwyddiadau Strategol Eisteddfod Genedlaethol					■							
Siaradwyr / Cynnal Stondin Cynadleddau		■	■	■		■		■			■	
Cynnal Stondinau / Digwyddiadau Strategol Sioeau Amaethyddol		■	■	■	■	■						
Cynnal Stondin Tafwyl				■								
Digwyddiad Strategol / Cynnal Stondin ar y Cyd â Phartneriaid Sioe Fawr				■								
Creu a Gweithredu Cynllun Marchnata Ras yr Iaith				■								
Datblygu a Hyrwyddo Prosiect Gwobr y Gymraeg / Siarter Iaith Busnesau			■	■							■	
Cydweithio â Phartneriaid i hyrwyddo Brwydr y Bandiau	■	■			■						■	
Diwrnodau/ Digwyddiadau Cenedlaethol o bwys												
Codi Ymwybyddiaeth o Ddydd Santes Dwynwen										■		
Codi Ymwybyddiaeth a Chynnal Digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi												■
Creu Cyfres o Negeseuon Allweddol am y Gymraeg i gydfynd â Gwyliau'r Pasg	■											
Nodi canlyniadau Etholiadau'r Cynulliad a llunio rhestrau o aelodau cynulliad newydd / Gweinidogion		■										
Codi Ymwybyddiaeth o Ddydd Owain Glyndŵr						■						
Cydlynu a Chreu Nwyddau i nodi Diwrnod Shwmae Su'mae							■					
Cydweithio ar Ymgyrchoedd Partneriaid i Annog mwy o bobl i gefnogi Cymru yn Gymraeg yn ystod Pencampwriaeth Ewro 2016			■	■								
Cydweithio ar Ymgyrchoedd Partneriaid i Annog mwy o bobl i gefnogi Cymru yn Gymraeg yn ystod Pencampwriaeth y Chwe Gwlad											■	■

	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth
Ymgyrchoedd Marchnata												
Cefnogi Ymgyrch C'mon Cymru												
Cefnogi Ymgyrch Newid Ymddygiad PethauBychain												
Cefnogi Ymgyrchoedd Lleol y Mentrau												
Cydlynu Ymgyrchoedd Cenedlaethol y Mentrau												
Cefnogi Ymgyrchoedd Partneriaid												
Cefnogi Ymgyrchoedd Cyllidwyr												
Marchnata Digidol												
Datblygu Strategaeth Farchnata Digidol												
Adolygu Strategaeth Farchnata Digidol												
Archwilio i Blatfformau Digidol Newydd												
Cynnal Adolygiad o'r Wefan												
Datblygu Cyfres o Dudalennau 'Golwg ar y Mentrau' i'w cynnwys ar y wefan												
Parhau i ddatblygu Mewnrwyd y Mentrau												
Cynnal Adolygiad o'r Fewnrwyd												
Nwyddau Marchnata												
Cynnal Awdit o Nwyddau Marchnata MIC												
Archebu Nwyddau Marchnata Amrywiol												
Dosbarthu Nwyddau Marchnata Cyllidwyr a Phartneriaid												
Creu a dosbarthu Taflenni Gwybodaeth												
Creu/Dosbarthu Taflenni Ymgyrchoedd												
Datblygu / Dosbarthu Ffeithluniau Negeseuon Allweddol am y Gymraeg												
Datblygu Cardiau Gwybodaeth am waith y Mentrau												
Hysbysebion												
Archwilio i'r cyfle i gynnwys logo mewn cyhoeddiadau												
Adolygu Testun Safonol i'w gynnwys ar wefannau partneriaid ac archwilio i gyfleoedd newydd.												
Cydweithio â Phartneriaid/Cyllidwyr i ddarparu hysbysebion mewn papurau newydd cenedlaethol.												
Datblygu DVD o Waith y Mentrau i'w ddosbarthu mewn ysgolion - digwyddiadau cyhoeddus.												
Archwilio i Hysbysebion Digidol wedi'u targedu												

	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth
Perthynas â'r Cyhoedd												
Parhau i gynhyrchu Cyswllt Cylchlythyr Mewnol y Mentrau	■	■	■	■		■	■	■		■	■	■
Mapio Cylchlythyron Cyhoeddus y Mentrau		■										
Datblygu Rhaglen Hyrwyddo Cylchlythyron y Mentrau a Phartneriaid					■							
Cydweithio â'r Mentrau a Phartneriaid i gryfhau brand y Mentrau ac annog y defnydd o dempledi/delweddau o ansawdd uchel i gyfleu delwedd broffesiynol	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Hyrwyddo Negeseuon Allweddol am y Gymraeg a brand 'Cymraeg' cenedlaethol mewn cydweithrediad â Phartneriaid a Chyllidwyr	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Llunio Cyfres o Astudiaethau Achos yn canolbwyntio ar grwpiau targed penodol.	■	■	■	■	■							
Adolygu rhestr cysylltiadau â'r Wasg						■						
Datblygu Rhaglen Chwarterol yn Adnabod Cyfleoedd i greu PR da i'r Mentrau – anelu at anfon o leiaf un datganiad I'r wasg yn fisol.	■			■			■			■		
Adolygu Protocol Perthynas â'r Wasg									■			
Bwletin i Ddylanwadwyr				■						■		
Ffeithlenni Staff						■		■			■	
Casglu gwybodaeth allweddol am waith y Mentrau yn genedlaethol (e.e. Nifer cyfranogwyr, gwirfoddolwyr, staff, digwyddidau)										■		
Adnabod unigolion o fewn y Mentrau Iaith ag arbenigedd/profiad i gynrychioli barn a safbwyntiau cyhoeddus y Mentrau yn y cyfryngau.	■											

Dulliau Cyfathrebu a Segmentu’r Gynulleidfa Darged

Amlinellir yn y ddalen isod y dulliau cyfathrebu/teclynnau Marchnata y byddwn yn eu defnyddio i gyrraedd ein cynulleidfaoedd targed.

	Cynulleidfaoedd Targed	**Y Mentrau Iaith**		**Ymgysylltiad y Mentrau â’r Cyhoedd**							**Sefydliadau Allweddol**	
Teclynnau Marchnata / Dulliau Cyfathrebu	**Is-Segmentau**	**Prif Swyddogion a Phwyllgorau Rheoli**	**Staff a Gwirfoddolwyr y Mentrau Iaith**	**Meithrin a Chynradd**	**Ysgol Uwchradd**	**Addysg Bellach/Uwch**	**Ymuno â’r Farchnad Lafur**	**Dod o hyd i bartner**	**Dechrau Teulu**	**Ymddeol**	**Cyllidwyr**	**Sefydliadau Partner**
Hysbysebion	Logos y Mentrau Iaith mewn cyhoeddiadau											
	Papurau Lleol/Papurau Bro/Newyddlenni Cymunedol											
	Testun a dolen ar wefannau Partneriaid											
	Hyrwyddo hysbysebion Partneriaid											
	DVD/Ffeil o Waith y Mentrau											
	Hysbysebion digidol wedi'u targedu											
Marchnata Digidol	Cyfryngau Cymdeithasol (Facebook, Twitter, linked-in, Youtube, Periscope, Instagram)											
	mentrauiaith.cymru / gwefannau'r mentrau											
	Mewnrwyd Mentrau Iaith Cymru											
Digwyddiadau Cyhoeddus	Eisteddfod yr Urdd + Eisteddfod Genedlaethol											
	Cynadleddau Cyflogadwyedd - Addysgol											
	Cynadleddau Cymraeg											
	Sioeau Cymunedol ac Amaethyddol											
Nwyddau Marchnata	Taflenni Ymgyrchoedd											
	Taflenni Gwybodaeth											
	Ffeithluniau											

	Cardiau Gwybodaeth											
	Deunyddiau Marchnata Cyffredinol eraill											
Perthynas â'r Cyhoedd	Cylchlythyron Cyhoeddus y Mentrau											
	Cyswllt (Cylchlythyr Mewnol)											
	Brandio Safonol a Delwedd Broffesiynol											
	Datganiadau i'r Wasg											
	Astudiaethau Achos											
	Cyfweliadau Cyfryngol											
	Briffio Staff /Ffeithlenni											
	Llythyru Dylanwadwyr / Bwletinau											
Ymgyrchoedd	Ymgyrchoedd Lleol y Mentrau											
	Ymgyrchoedd Cenedlaethol y Mentrau											
	Ymgyrchoedd Cyllidwyr											
	Ymgyrchoedd Partneriaid											
	Ymgyrch PethauBychain											
	Ymgyrch Shwmae Su'mae											

Gwerthuso ac Adolygu'r Cynllun Marchnata

Adolygir a diweddarir y Cynllun Marchnata hwn yn barhaus.

Defnyddir y dulliau gwerthuso/mesur canlyniadau isod er mwyn llunio cyfeiriad/camau gweithredu'r cynlluniau gweithredu blynyddol.

Gweithgaredd Marchnata	Dull Gwerthuso/Mesur Canlyniadau
Marchnata Digidol	Facebook Insights, Hootsuite Analytics, Google Analytics.
Digwyddiadau Cyhoeddus	Nifer ymwelwyr, nifer y bobl sy'n cysylltu yn uniongyrchol yn dilyn y digwyddiad.
Ymgyrchoedd Marchnata	Insights Facebook, Google Analytics, nifer y bobl sy'n dod i ddigwyddiadau'r mentrau, nifer y bobl sy'n cysylltu â'r Mentrau, sylw yn y wasg. Bydd gan bob ymgyrch farchnata ei chynllun adolygu/gwerthuso ei hun.
Perthynas â'r Cyhoedd / Cyfathrebu	Cynnal arolwg i fesur barn gyhoeddus am waith y Mentrau – holiaduron mewnol i ddylanwadwyr o'u gwybodaeth o'r fenter.
Perthynas â'r Cyhoedd / Cyfathrebu - Datganiadau i'r Wasg	Nodi nifer y datganiadau sydd wedi ennyn sylw yn y wasg leol/papurau cenedlaethol.
Nwyddau Marchnata	Cynnal Awdit o holl nwyddau marchnata Mentrau Iaith Cymru ac amcangyfrif faint o bobl sydd wedi dod i gyswllt â'r negeseuon/brand er mwyn teilwra nwyddau yn barod ar gyfer cynlluniau marchnata'r dyfodol.
Hysbysebion	Mesur nifer y bobl sydd wedi ymweld â'r wefan/cyfrifon cymdeithasol. Monitro os oes cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r mentrau/partneriaid.

Dadansoddi'r Amgylchedd Marchnata

Wrth fwrw ati i lunio'r cynllun hwn cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda'r Mentrau Iaith ym mhob rhan o Gymru er mwyn casglu manylion eu gweithgareddau marchnata presennol. Canolbwyntiwyd ar anghenion marchnata unigol bob Menter ac edrychwyd ar rai o'r ffactorau allanol a mewnol a all effeithio ar ddatblygu eu gweithgareddau marchnata i'r dyfodol.

Dadansoddiad STEP (Social, Technological, Economic, Political)

Defnyddir dadansoddiad STEP i nodi'r ffactorau allanol sy'n gallu effeithio ar gwmpas y cynllun hwn/gwaith y mudiad. Dadansoddiad syml sy'n edrych amgylchedd Cymdeithasol, Technolegol, Economaidd a Gwleidyddol y mudiad/sefydliad yw Dadansoddiad STEP.

Ffactorau Dadansoddi	Nodiadau	Effaith Posibl	Goblygiadau a phwysigrwydd	Goblygiadau a phwysigrwydd	Goblygiadau a phwysigrwydd
	Sut all y ffactorau sydd wedi eu rhestru ar y chwith effeithio ar eich sefydliad?	U - Uchel C - Canolig I - Isel A - Ansicr	Amserlen: - 0-6 mis - 6-12 mis - 12-24 mis - 24+ mis	Math: - Cadarnhaol - Negyddol - Ansicr	Pwysigrwydd: - Tyngedfennol - Pwysig - Ddim yn bwysig - Ansicr
Cymdeithasol	1. agwedd negyddol tuag at y Gymraeg 2. Pobl ifanc yn gadael Cymru 3. mewnfudo gan di-Gymraeg 4. dim defnydd o'r Gymraeg gan siaradwyr	U U U U	0-6 mis 0-6 mis 0-6 mis 0-6 mis	Negyddol Negyddol Negyddol Negyddol	Tyngedfennol Tyngedfennol Tyngedfennol Tyngedfennol
Technolegol	1. dulliau cyfathrebu gan sectorau penodol yn newid 2. y Gymraeg ddim ar gael ar blatfformau diweddaraf	C U	0-6 mis 0-6 mis	y ddau negyddol	Tyngedfennol Tyngedfennol
Economaidd	1. agwedd negyddol gan awdurdodau/cyrff cyhoeddus tuag at fuddsoddi yn y Gymraeg 2. cyfleoedd grantiau i ariannu cynlluniau newydd	U C	6-12 mis 6-12mis	negyddol Cadarnhaol	Tyngedfennol Pwysig
Gwleidyddol	1. agwedd negyddol ACau ac ASau tuag at y Gymraeg a'r Mentrau Iaith 2. polisïau a strategaethau Cymraeg gwan 3. polisïau a strategaethau eraill nad ydynt yn ystyried y Gymraeg 4. strwythur ALl newydd	U U U U	0-12 mis 12-24 mis 12-24 mis 12-24 mis	negyddol negyddol negyddol Ansicr	Tyngedfennol Tyngedfennol Tyngedfennol 12-24 mis

Dadansoddiad SWOT/Adnabod y Cyfleoedd

CRYFDERAU

Y Mentrau Iaith wedi'u sefydlu ers dros 15 mlynedd yn y rhan fwyaf o Gymru.

Cefnogaeth gref gan 23 Menter Iaith yng Nghymru.

Hyblygrwydd a gallu ymateb yn sydyn i ddigwyddiadau o bwys.

Staff Brwdfrydig a Swyddog Marchnata a Chyfathrebu Cenedlaethol.

Presenoldeb cadarn ar-lein ac yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol.

GWENDIDAU

Brand y Mentrau Iaith yn anghyson.

Lleisiau/Negeseuon Allweddol y Mentrau Iaith yn anghyson.

Natur ac adnoddau pob Menter Iaith yn wahanol.

Diffyg adnodd i gynnal presenoldeb mewn rhai o ddigwyddiadau mwyaf Cymru.

Diffyg Adnoddau i wireddu potensial.

Diffyg arbenigedd Marchnata ar lawr gwlad.

CYFLEOEDD

Meithrin mwy o arbenigedd Marchnata ar lawr gwlad.

Grantiau/Ffynonellau cyllid ar gyfer mwy o brosiectau.

Cydweithio â Phartneriaid i gyd-gynllunio a datblygu Ymgyrchoedd Marchnata.

Platfformau digidol newydd – rhad ac effeithiol.

BYGYTHIADAU

Colli Cefnogaeth y Mentrau Iaith.

Llai o anoddau ariannol a dynol.

Colli ymddiriedaeth / cefnogaeth y cyhoedd.

Diffyg datblygiadau technolegol sy'n cefnogi'r Gymraeg.

Ansefydlogrwydd Gwleidyddol – Etholiadau/Newid mewn blaenoriaethau cyllidebol.